Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chefnogi poblogaethau helgig mewn ardal rheoli bywyd gwyllt. Mae'n ymwneud â'r gweithgareddau yr ydych yn eu gwneud i gynnal helgig yn y gwyllt trwy ddarparu bwyd, dŵr ac adnoddau eraill.

Mae'r safon hon wedi ei hanelu at y rheiny sy'n gweithio ym maes gwarchod helgig naill ai'n llawn amser neu'n rhan-amser, a gellir ei chymhwyso i unrhyw ardal rheoli bywyd gwyllt.

Er mwyn bodloni'r safon hon byddwch yn gallu:

- paratoi a chynnal offer i'w ddefnyddio i ddarparu bwyd, dŵr ac adnoddau eraill
- cymhwyso adnoddau i gefnogi poblogaethau helgig yn effeithiol
- monitro ac adrodd ar adwaith helgig i adnoddau.

Er mwyn i chi ddeall cyd-destun y safon yn llawn, a'r gweithgareddau y mae'n eu disgrifio, mae'n bwysig eich bod yn gallu deall y termau a ddefnyddir yn y safon. Gweler yr Eirfa am rai o'r diffiniadau a ddylai eich helpu gyda hyn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwneud gwaith yn ddiogel, yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. gwybod pryd a ble y mae angen adnoddau ychwanegol i gefnogi poblogaethau helgig
3. dewis, paratoi a chynnal safleoedd, offer a chyfleusterau a ddefnyddir i ddosbarthu adnoddau
4. gweithio mewn ffordd sy'n lleihau amharu ar gynefin a bywyd gwyllt
5. cymhwyso adnoddau yn effeithiol i gynnal helgig gydag isafswm gwastraff
6. monitro adwaith yr helgig i'r adnoddau sydd wedi eu cymhwyso a'u defnydd a hysbysu'r person priodol am hyn
7. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw bryderon am les helgig

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sy'n gysylltiedig â chymhwyso adnoddau i gynnal poblogaethau helgig, yn cynnwys gweithio ar eich pen eich hun
2. gofynion lles helgig yn cynnwys problemau cyffredin lles helgig
3. y mathau o adnoddau a ddefnyddir i gynnal lles helgig
4. sut y caiff adnoddau eu cymhwyso i gynnal helgig
5. pam mae'n bwysig lleihau'r amhariad a achosir wrth baratoi cyfleusterau
6. yr offer a'r cyfleusterau sy'n ofynnol i ddarparu adnoddau ychwanegol i helgig yn eu cynefin
7. adwaith ddisgwyliedig helgig i'r adnoddau a ddarperir
8. y cyfyngiadau cyfreithiol perthnasol wrth ddyrannu adnoddau ychwanegol
9. y meddyginiaethau a ddefnyddir i gynnal iechyd helgig

Cwmpas/Ystod

Cymhwyso adnoddau i helpu i gynnal y canlynol:

- lles helgig
- lleoliad helgig

Geirfa

Adnoddau:
- bwyd
- lloches
- dŵr
- graean
- meddyginiaeth

Ardal rheoli bywyd gwyllt – unrhyw ddarn o dir a ddefnyddir i ddarparu gweithgareddau saethu helgig

Helgig – rhywogaethau ysglyfaeth helgig cyfreithiol yn cynnwys carw

LANGa9

Cynnal poblogaethau helgig

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2017
Indicative Review Date	Ionawr 2021
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	O29NGa3
Galwedigaethau perthnasol	Gweithiwr Ystâd
Cyfres/Set	Helwriaeth a Rheoli Bywyd Gwyllt
Geiriau Allweddol	helgig; poblogaethau; adnoddau; bwyd; dŵr; lloches; meddyginiaeth